OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3225

# Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005

**Trosglwyddo swyddogaethau, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd i'r Cynulliad**

**2.**—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo mae swyddogaethau'r Bwrdd yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad yn unol â darpariaethau Atodlenni 1 a 2 sy'n diwygio'r deddfiadau a'r offerynnau sy'n ymwneud â'r Bwrdd er mwyn:

(a) trosglwyddo ei swyddogaethau i'r Cynulliad, a

(b) gwneud darpariaeth sy'n ganlyniad i'r trosglwyddo neu sydd yn gysylltiedig neu'n atodol i hynny.

(2) Yn rhinwedd y paragraff hwn, ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir i'r Cynulliad a breinir ynddo yr holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau y mae gan y Bwrdd hawl iddynt neu y mae'n ddarostyngedig iddynt yn union o flaen y dyddiad hwnnw.

(3) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (2) uchod yn cynnwys rhai sy'n codi o dan contract cyflogi a wnaed rhwng cyflogai perthnasol a'r Bwrdd.

(4) Mae Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981(**1**) yn gymwys i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i'r Cynulliad boed ar wahân i'r ddarpariaeth hon ai peidio, y byddai cyflawni'r swyddogaethau hyn yn cael eu trin fel ymgymeriad o natur fasnachol at ddibenion y Rheoliadau hynny.

(5) Mae tystysgrif a ddyroddwyd gan y Cynulliad bod unrhyw eiddo wedi'i drosglwyddo o dan baragraff (2) yn dystiolaeth bendant o'r trosglwyddiad.

(6) Mae paragraff (2) yn cael effaith mewn perthynas â'r eiddo, hawliau neu rwymedigaethau y mae yn gymwys iddynt er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai'n atal trosglwyddo'r eiddo, yr hawliau neu'r rhwymedigaethau neu'n cyfyngu ar eu trosglwyddo heblaw gan y paragraff hwnnw.

(**1**) O.S. 1981/1794, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 (p.19), gan Ddeddf Gwaith Dociau 1989 (p.13) a chan Offerynnau Statudol 1987/442, 1995/2587, 1998/1658, 1999/1925, 1999/2402 a 1999/2587.